NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Dulliau atal cenhedlu gwrthdroadwy hirdymor

Hydref 2005

Gorffennaf 2019

## *Dulliau atal cenhedlu gwrthdroadwy hirdymor*

Mae dulliau atal cenhedlu hirdymor yn rhai nad oes rhaid i chi feddwl amdanynt bob dydd na phob tro y byddwch yn cael rhyw, fel y byddai'n rhaid i chi ei wneud gyda'r Bilsen neu gondomau. Mae dulliau atal cenhedlu hirdymor yn cynnwys:

- dyfeisiau a gaiff eu gosod yn eich croth – dyfeisiau mewngroth (IUD) a systemau mewngroth hormonaidd (IUS)
- pigiadau atal cenhedlu
- mewnblaniadau o dan eich croen.

## *Gwneud penderfyniadau*

Os ydych yn ystyried dulliau atal cenhedlu, dylech gael gwybodaeth am yr holl fathau gwahanol sydd ar gael, gan gynnwys rhai hirdymor. Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gallwch ddewis y dull atal cenhedlu sydd orau i chi, ar yr amod nad oes unrhyw reswm meddygol pam na ddylech ei gael.

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dwedwch hynny wrth eich gweithiwr iechyd proffesiynol.

Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

## *Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?*

Mae gan Sexwise (a gynhelir gan Public Health England) wybodaeth am y gwahanol ddulliau atal cenhedlu ac mae'n eich helpu i'w cymharu.

Mae gwybodaeth am ddulliau atal cenhedlu hefyd ar gael ar wefan y GIG

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

ISBN: 978-1-4731-0720-5



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.